## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau") er mwyn mewnosod rheoliad newydd 18B yn y prif Reoliadau i ddarparu na chaiff unrhyw berson ymadael â'r man lle y mae'n byw at ddibenion gwaith pan fo'n rhesymol ymarferol i'r person weithio gartref. Mae rheoliad newydd 42A wedi ei fewnosod yn y prif Reoliadau i ddarparu ar gyfer trosedd o fethu â chydymffurfio â gofyniad rheoliad 18B.

Mae darpariaeth gysylltiedig wedi ei mewnosod yn rheoliad 16 o'r prif Reoliadau i ddarparu bod y mesurau rhesymol y gall person sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig eu cymryd o dan y rheoliad hwnnw yn cynnwys caniatáu neu ei gwneud yn ofynnol i bersonau sydd fel arfer yn gweithio yn y fangre weithio gartref.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod angen eu rhoi yn eu lle ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.